Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesurau rheoli Rhywogaethau Goresgynnol Estron sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr

## Crynodeb o ymatebion ac ymatebion y Llywodraeth

Mehefin 2020

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0. I weld y drwydded, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence

Mae'r cyhoeddiad hwn i'w gael yn www.gov.uk/government/publications

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyhoeddiad hwn, anfonwch nhw at:

invasivealienspecies@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

## Cynnwys


Cyflwyniad a’r cyd-destun ........ 1

Ymatebwyr ........ 2

Crynodeb o’r ymatebion i’r cwestiynau ac ymateb y llywodraeth ........ 4

Cwestiwn 6: Beth yw eich barn ar y nodau arfaethedig ar gyfer mesurau rheoli sydd yn Atodiad A? ........ 4

Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 6 ........ 4

Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 6 ........ 6

Cwestiwn 7: Beth yw eich barn ar y mesurau rheoli cyffredinol sydd yn Atodiad B? ........ 7

Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 7 ........ 7

Cwestiwn 8: Oes yna gamau gweithredu ychwanegol y dylid eu caniatáu fel mesur rheoli cyffredinol ar gyfer rhywogaeth benodol sydd wedi lledaenu’n eang? ........ 8

Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 8 ........ 8

Cwestiwn 9: Oes yna gamau gweithredu ychwanegol na ddylid caniatáu eu defnyddio fel mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu’n eang? ........ 10

Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 9 ........ 10

Ymateb y Llywodraeth i fesurau rheoli cyffredinol – cwestiynau 7, 8 a 9 ........ 10

Cwestiwn 10: Beth yw eich barn ar y mesurau rheoli trwyddadwy sydd yn Atodiadau C a D? ........ 12

Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 10 ........ 12

Cwestiwn 11: Oes yna gamau gweithredu ychwanegol y dylid eu defnyddio fel mesurau rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu’n eang penodol? ........ 14

Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 11 ........ 14

Cwestiwn 12: Oes yna gamau gweithredu na ddylid caniatáu eu defnyddio fel mesur rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaeth sydd wedi lledaenu’n eang benodol? ........ 15

Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 12 ........ 15

Ymateb y Llywodraeth i fesurau rheoli trwyddadwy – Cwestiynau 10, 11 a 12 ........ 16

Ymgyrch llythyru ........ 17

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgyrchoedd llythyru ..... 19

Crynodeb o'r ymatebion yn ymwneud ag Atodiad D – Mesurau rheoli ar gyfer Cimwch afon America ..... 20

Ymateb y Llywodraeth i fesurau rheoli Cimwch afon America ..... 22

Atodiad A – Sefydliadau a ymatebodd ..... 25

Atodiad B – Nodau'r mesurau rheoli ..... 27

# Cyflwyniad a’r cyd-destun

1. Diben yr ymgynghoriad oedd cael barn ar y mesurau rheoli sy'n cael eu hystyried gan Defra a Llywodraeth Cymru ar gyfer rhywogaethau o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr yn unol ag Erthygl 19 o Reoliad (UE) Rhif. 1143/2014 ar atal a rheoli cyflwyno a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron (‘y Prif Reoliad’). Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ar 18 Gorffennaf 2019 ac fe barodd am 8 wythnos.

2. Mae’r Prif Reoliad yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno mesurau rheoli effeithiol ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu’n eang, er mwyn lleihau’r effaith ar fioamrywiaeth, y gwasanaethau ecosystem cysylltiedig, ac ar iechyd pobl neu’r economi lle bo’n berthnasol. Mae’n rhaid i fesurau rheoli geisio cyflawni un neu fwy o’r tri diben canlynol: dileu; rheoli poblogaeth; ynysu.

3. Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno cynigion ar gyfer mesurau rheoli ar gyfer 14 rhywogaeth o bryder i’r Undeb a nodwyd fel rhai sydd wedi lledaenu’n eang yng Nghymru a Lloegr. Gofynnwyd am farn pobl ar nodau’r mesurau rheoli, y mesurau rheoli cyffredinol (y rhai nad ydynt wedi’u cyfyngu gan y Prif Reoliad ac felly nad ydynt angen trwydded o dan Orchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 (‘y Gorchymyn Gorfodi’) a mesurau rheoli trwyddadwy (y byddai’n anghyfreithlon eu cymryd oni bai eu bod wedi’u hawdurdodi gan drwydded a roddwyd o dan Erthygl 36(2)(b) a 36(2)(c) o’r Gorchymyn Gorfodi).

4. Fel arfer, nod Defra a Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos i gau’r ymgynghoriad. Y bwriad, felly, oedd cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion cyn 12 Rhagfyr. Fodd bynnag, yn dilyn y penderfyniad i gynnal etholiad cyffredinol a’r cyfnod cyn-etholiad cysylltiedig, nid oedd modd cyhoeddi’r ddogfen crynodeb hyd nes bod llywodraeth newydd y DU wedi’i ffurfio.

5. Cyn cyhoeddi’r crynodeb hwn o ymatebion ac ymateb y llywodraeth, cyhoeddodd Defra a Llywodraeth Cymru ymateb interim[1] (ar 1 Tachwedd 2019) yn cyflwyno ein safbwynt ar y cyd cyn i’r Gorchymyn Gorfodi ddod i rym ar 1 Rhagfyr. Diweddarwyd yr ymateb interim ar 20 Rhagfyr 2019.

## Cytundeb Ymadael â’r UE a’r Gorchymyn Gorfodi

6. Bydd yr EU (Withdrawal) Act 2018 yn sicrhau y bydd cyfraith amgylcheddol gyfredol yr UE yn parhau i fod mewn grym yng nghyfraith y DU ar ôl i’r DU adael yr UE.

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/invasive-alien-species-management-measures-for-widely-spread-species-in-england-and-wales

7. Daeth Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 sy'n cyflwyno darpariaethau trwyddedu yn ymwneud â mesurau rheoli ac sy'n cyflwyno cosbau am dorri'r cyfyngiadau yn y Prif Reoliad, amddiffynfeydd a darpariaethau eraill cysylltiedig â gorfodi i rym ar 1 Rhagfyr 2019.

# Ymatebwyr


8. Cafwyd 722 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Daeth y rhan fwyaf i law trwy borth ar-lein CitizenSpace, ac ambell un trwy'r e-bost ac ar ffurf copi caled.

9. Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o ymatebwyr, gan gynnwys unigolion preifat, grwpiau cadwraeth, elusennau a chymdeithasau masnach (gweler **Ffigur 1** am restr o'r ymatebion fesul sector/buddiant). Fe wnaeth nifer o ymatebwyr gyflwyno pwyntiau a oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, er i ni eu cydnabod. Roeddent yn cynnwys sylwadau am reoli rhywogaethau nad oeddent ar y rhestr o'r 14 o rywogaethau dan ystyriaeth fel clymog Japan a rhywogaethau anfrodorol eraill o geirw o fwntjac.

10. Fe wnaeth dros dri chwarter gyflwyno ymatebion a oedd fel pe baent naill ai'n ymateb i'r wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o ymgyrchoedd llythyru neu'n dilyn patrwm tebyg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn yn gwrthwynebu defnyddio dulliau marwol gan gynnwys difa a/neu ddileu. O'r rhai hynny nad oeddent fel pe baent yn ymateb fel rhan o'r ymgyrchoedd llythyru, neu'n gwneud sylwadau yn yr un cywair, roedd y mwyafrif yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan.

11. Mae rhestr y sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar gael yn **Atodiad A**.

**Ffigur 1 – dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**




| Type of respondent | % of responses received |
|---|---|
| Individuals | 74.43% |
| Other | 13.65% |
| Animal Rescue | 8.33% |
| Land Owner | 5.46% |
| Charity | 5.17% |
| Forestor/Woodland Owner/Manager | 3.30% |
| Conservation body | 3.16% |
| Academia | 2.73% |
| Local Action Group | 2.73% |
| Farmer | 2.30% |
| Business | 1.87% |
| NGO | 1.44% |
| Aquatic interests | 1.15% |

# Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ac ymateb y llywodraeth

12. Mae cwestiynau 1 – 5 y ddogfen ymgynghori wedi'u rhestru isod.

    C1. A hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?
    C2. Beth yw eich enw?
    C3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?
    C4. Pwy ydych chi'n ei gynrychioli?
    C5. Pa ranbarth daearyddol mae eich ymatebion chi'n ymwneud ag ef?

13. Roedd cwestiynau 6 i 12 yr ymgynghoriad yn ymwneud â nodau arfaethedig y mesurau rheoli, mesurau rheoli cyffredinol a mesurau rheoli trwyddadwy.

14. Mae crynodeb o'r ymatebion i bob un o gwestiynau 6 - 12, ac ymatebion cyfatebol y llywodraeth, wedi'u darparu isod.

15. Mae crynodeb o'r ymatebion ac ymatebion y llywodraeth i'r ymgyrchoedd llythyru, ac Atodiad D y ddogfen ymgynghori (cynigion yn ymwneud â chimwch afon America) wedi'u darparu ar wahân.

# Cwestiwn 6: Beth yw eich barn ar y nodau arfaethedig ar gyfer mesurau rheoli sydd yn Atodiad A?

## Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 6

16. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau manylach ar y nodau'n gyffredinol yn awgrymu bod angen i'r nodau fod yn fwy penodol a mesuradwy (gan gynnwys targedau, y sail resymegol dros reoli, amserlenni, adnoddau a hyd a lled) a bod angen iddynt fod yn realistig er mwyn blaenoriaethu a chydgysylltu'r ymdrech reoli a sicrhau ei bod yn gost-effeithiol ac yn ddichonadwy fel bod y manteision yn gynaliadwy.

17. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd cyfathrebu da wrth gynllunio, datblygu a chynnal mesurau rheoli. Awgrymwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol pan fo mesurau rheoli anifeiliaid yn cael eu gweithredu. Fe wnaeth cymysgedd o ymatebwyr, yn enwedig rhai oedd yn cynrychioli buddiannau dyfrol, gyfeirio at bwysigrwydd hybu bioamrywiaeth dda a dweud y dylai'r ymgyrch bioddiogelwch 'Edrych Golchi Sychu' fod yn fwy amlwg.

18. Roedd grwpiau ecolegol a thirfeddianwyr yn pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth leol y tirfeddiannwr a'r rheolwr tir, pwysigrwydd mapio a chofnodi poblogaethau, ac yn argymell y dylid datblygu cymorth i Grwpiau Gweithredu Lleol er mwyn gwneud y gorau o reolaeth effeithiol. Nodwyd pwysigrwydd adfer rhywogaethau brodorol lle cyflwynwyd camau i reoli rhywogaethau goresgynnol estron, a mynegwyd cefnogaeth ar gyfer gwario arian cyhoeddus ar ymchwil i reolaeth effaith ac ar gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd camau rheoli o ystyried y buddiannau cyhoeddus a ddaw o waith rheoli

19. Awgrymodd croestoriad o ymatebwyr fod angen cryfhau'r fframwaith gorfodi.

## Planhigion

20. Dywedodd sawl ymatebwr fod y nod ar gyfer rhywogaethau planhigion sydd wedi lledaenu'n eang yn rhy gyfyngedig wrth gyfeirio at Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Roeddent yn argymell ehangu'r nod i gynnwys ardaloedd i fyny'r afon o safleoedd ecolegol pwysig a chyfeirio at fflora brodorol prin.

21. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod gormod o bwyslais ar safleoedd ecolegol-sensitif, ac nad oedd hyn yn ystyried pa mor ymarferol yw'r mesurau rheoli. Roedd eraill yn teimlo y byddai targedu naill ai poblogaethau sydd newydd ymsefydlu a/neu 'prif ffynonellau' sydd wedi ennill eu plwyf sydd â risg uchel o ledaenu (fel mewn cynefinoedd afonol a rhai ger rheilffyrdd ac ymylon ffyrdd) yn cael effaith fwy ac ehangach yn nhermau atal lledaeniad i ardaloedd newydd a chadw ffynonellau pla dan reolaeth. Dywedodd rhai na ddylai'r pwyslais ar safleoedd ecolegol achosi baich ariannol neu weinyddol ychwanegol ar dirfeddianwyr ac y dylid dyrannu cyllid er mwyn caniatáu ar gyfer rheoli rhywogaethau afonol yn ddewisol er mwyn lleihau'r peryglon llifogydd, yn enwedig gyda'r risg gynyddol yn sgil newid hinsawdd.

## Anifeiliaid

22. Roedd pwynt a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno bod angen rheoli anifeiliaid gwyllt am resymau amrywiol, gan gynnwys dulliau rheoli marwol, yn pwysleisio'r angen am eglurder ynghylch penderfyniadau fel bod proses yn bodoli lle mae penderfyniad i reoli, a'r rhesymau dros y dewisiadau, yn glir ac wedi'u seilio ar dystiolaeth wyddonol gadarn sy'n dangos y byddai'r rhaglen yn arwain at fanteision hirdymor. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr y dylid gosod amcanion clir, a bod yr holl randdeiliaid yn cytuno ar bwynt terfyn penodol ar ddechrau'r prosiect, fel bod pawb yn deall sut beth yw llwyddiant neu fethiant.

23. Fe wnaeth llawer o'r ymatebwyr argymell ehangu'r geiriad ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid i gynnwys, *"dileu yn y gwyllt lle bo'n bosib gan ddefnyddio dulliau heb greulondeb, a lle mae'r canlyniadau'n ddichonadwy a'r manteision yn gynaliadwy".* Fe wnaeth eraill awgrymu ehangu'r nodau er mwyn esbonio pam mae angen cymryd

camau. Er enghraifft, *'...dileu yn y gwyllt lle bo'n bosib... ac felly lleihau ei effaith ar y fioamrywiaeth frodorol a gwasanaethau ecosystem, a'r effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach."*

24. Gan dderbyn mai dileu yw'r ateb dymunol ar gyfer rhai rhywogaethau penodol, fe wnaeth rhai ymatebwyr godi pryderon am ba mor ymarferol yw dileu neu reoli lledaeniad; yn enwedig yn achos rhywogaethau sydd wedi'u gwasgaru'n eang iawn yn cynnwys y carw mwntjac a'r wiwer lwyd. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn ffafrio ymateb cydgysylltiedig cenedlaethol, ac yn siomedig gyda'r bwriad i ddod â'r Fenter Ceirw i ben, ac yn gofyn i Defra a Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun rheoli strategol ar gyfer ceirw yn parhau. Hefyd, awgrymwyd bod angen mwy o waith ymchwil, gwerthuso a monitro fel man cychwyn i ddeall y rhywogaethau hyn yn well yn y DU. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y gwrthdaro tybiedig rhwng ymarferoldeb rheoli ceirw mwntjac trwy eu saethu a'r cyfyngiadau ychwanegol ar ddrylliau tân sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

25. Yn achos y wiwer lwyd, pwysleisiodd ystod eang o ymatebwyr fod angen i'r nodau a'r adnoddau ganolbwyntio ar eu hatal rhag ennill eu plwyf mewn ardaloedd lle mae'r wiwer goch yn gallu ffynnu ar hyn o bryd. Hefyd, pwysleisiwyd pwysigrwydd cael cyllid er mwyn rheoli'r sefyllfa yn y tymor hir ac ystyried sut mae dulliau rheoli rhywogaethau goresgynnol estron yn cael eu hintegreiddio mewn polisïau rheoli tir eraill, sef Glastir yng Nghymru a'r Countryside Stewardship a'r Environmental Stewardship yn Lloegr.

26. O ran terapiniaid, barn gyffredinol ymatebwyr oedd y dylai'r pwyslais fod ar leihau achosion pellach o gyflwyno crwbanod i'r amgylchedd yn hytrach na rheoli'r poblogaethau sydd eisoes yn byw yn y gwyllt. Awgrymwyd nod ychwanegol gan eraill, yn ymwneud â rheoleiddio masnach gan gynnwys gwerthuso'r safonau masnachu cyfredol gan awgrymu y byddai gwella ymwybyddiaeth busnesau a'r cyhoedd yn elfen bwysig o ran lleihau casgliadau preifat.

## Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 6

27. Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen i'r nodau fod yn fwy penodol a realistig er mwyn blaenoriaethu a chydgysyltu'r ymdrech reoli a sicrhau ei bod yn gost-effeithiol ac yn ddichonadwy fel bod y manteision yn gynaliadwy.

28. Cafodd y nodau yn y ddogfen ymgynghori eu darparu fel datganiadau cyffredinol arfaethedig o fwriad, sy'n nodi i ba gyfeiriad yr hoffem fynd iddi. Rydym yn ystyried y byddai datganiadau penodol sy'n diffinio targedau a chanlyniadau ac ati yn rhan o'r broses o ddatblygu cynigion ar gyfer gweithredu yn unol â chynlluniau rheoli rhywogaethau penodol fel *Rheoli ceirw gwyllt: cynllun gweithredu 2017 i 2022* yng Nghymru neu fel rhan o gynigion i gymryd camau ar safle penodol fel rhan o gamau rheoli trwyddadwy.

29. Rydym yn ystyried bod rheoli marwol yn ddull hynod effeithiol y gallai fod angen ei ddefnyddio mewn rhai amgylchiadau er mwyn diogelu'r amgylchedd. Fodd bynnag, lle bo'n ymarferol, gellir archwilio mesurau nad ydynt yn farwol ar gyfer rhai rhywogaethau anifeiliaid. Bydd dileu yn parhau yn rhan o'r nodau ar gyfer rhywogaethau sy'n lledaenu'n eang (Atodiad B). Bydd y llywodraeth yn parhau i gefnogi ymchwil, megis bioreoli, i gyflawni'r nod hwn.

30. Rydym wedi ystyried yr awgrymiadau ar gyfer aralleirio'r nodau, ac mae'r nodau diwygiedig wedi'u cynnwys yn **Atodiad B** y ddogfen hon.

# Cwestiwn 7: Beth yw eich barn ar y mesurau rheoli cyffredinol sydd yn Atodiad B?

## Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 7

31. Fe wnaeth ymatebwyr a ddarparodd sylwadau manylach ar y mesurau rheoli cyffredinol gyfeirio gan mwyaf at bwysigrwydd ymchwilio i ddulliau olrhain, rheoli a dileu, yr angen am ddulliau rheoli dan law'r llywodraeth neu wedi'u cydlynu'n well, gwell monitro a chynnal a chadw ar ôl rheoli, a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ariannu'r gwaith hwn.

32. Roedd cefnogaeth gyffredinol i godi mwy o ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau hyn, eu heffeithiau ecolegol ac economaidd-gymdeithasol a'r cyfyngiadau cyfreithiol, rhwymedigaethau cyfreithiol, dulliau rheoli a'r ffrydiau cyllido sydd ar gael. Cyfeiriodd sawl ymatebwr at broblem gwerthiannau ar-lein, a sut gellid rheoleiddio hyn yn ddigonol.

### Planhigion

33. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn gefnogol o'r mesurau cyffredinol a restrwyd ar gyfer rhywogaethau planhigion sydd wedi lledaenu'n eang. Roedd sawl ymatebwr yn cefnogi ymgyrch 'Be Plant Wise' ond yn argymell bod angen ei diweddaru i gynnwys yr holl rywogaethau perthnasol sydd wedi lledaenu'n eang sydd o bryder i'r Undeb. Roedd cyfathrebu gwell a chodi ymwybyddiaeth hefyd yn thema gyffredin, gydag awgrymiadau ar gyfer labelu planhigion yn well i gynnwys eu heffeithiau, cadarnhau cyfrifoldebau tirfeddianwyr a darparu dolenni cyswllt i wybodaeth bellach fel bod prynwyr yn gallu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Tynnodd rai sylw at broblemau sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd y bydd rhai cynhyrchion plaladdwyr yn diflannu o'r farchnad yn y dyfodol, sydd wedi'u defnyddio i reoli rhywogaethau planhigion goresgynnol estron.

34. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi’r defnydd o fesurau bioreoli ar gyfer planhigion, a chynnal rhagor o ymchwil i hynny, gan gyfeirio at lwyddiant cychwynnol treialon ar blanhigion Jac y Neidiwr.

### Anifeiliaid

35. O’r ymatebwyr hynny a oedd yn cydnabod y gallai’r defnydd o ddulliau rheoli marwol fod yn angenrheidiol o dan rai amgylchiadau, roedd rhai eisiau sicrwydd bod camau o’r fath yn cael eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth a’u bod yn cael eu cyflawni heb boen. Tra cyfeiriwyd at raglenni dileu llwyddiannus fel llygod mawr ar Ynys Wair a gwiwerod llwyd ym Môn, roedd rhai’n teimlo nad oedd dileu yn ymarferol nac yn gynaliadwy, ac am weld mwy o bwyslais ar weithredu mesurau nad ydynt yn farwol. Nodwyd y ffaith fod adnoddau ac ymdrechion aruthrol ynghlwm wrth gydlynu rhaglenni dileu, a bod rhaid iddynt gynnwys cynlluniau gydag amserlenni, sy’n dangos ymarferoldeb a chynaliadwyedd.

36. O’r ymatebwyr hynny a wnaeth fynegi barn ar gynigion i leihau nifer y rhywogaethau goresgynnol estron mewn caethiwed dros amser, awgrymwyd bod mwy o gyfrifoldeb yn cael ei roi ar dirfeddianwyr a chasgliadau preifat er mwyn lleihau’r poblogaethau a sicrhau bod mesurau priodol ar waith i atal unrhyw ryddhau damweiniol. Nodwyd hefyd nad yw rhai o’r rhywogaethau hyn wedi ymaddasu’n dda i gael eu cadw mewn caethiwed ac yn sicr ddim mewn amgylchedd domestig o unrhyw fath, ac y dylid cysylltu’r mesur hwn ag atal bridio mewn caethiwed. Roedd eraill yn cynnig gofyniad i anifeiliaid sy’n cael eu cadw mewn caethiwed gael eu sterileiddio er mwyn osgoi bridio damweiniol.

37. Roedd rhai ymatebwyr yn gefnogol o ddulliau bioreoli ar gyfer anifeiliaid, fel ateb amgen i ddulliau rheoli marwol tra’r oedd eraill yn diystyru hynny, yn enwedig gan fod rheoli ffrwythlondeb yn dangos effeithiau digroeso ar rywogaethau mamaliaid eraill a phroblemau fel gallu cyflwyno dulliau rheoli o’r fath yn effeithiol dros ardaloedd eang o Gymru a Lloegr.

# Cwestiwn 8: Oes yna gamau gweithredu ychwanegol y dylid eu caniatáu fel mesur rheoli cyffredinol ar gyfer rhywogaeth benodol sydd wedi lledaenu’n eang?

## Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 8

38. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y camau gweithredu arfaethedig cyfredol yn ddigonol ac nad oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau pellach. O’r ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi’r camau arfaethedig, roedd cyfran sylweddol yn cefnogi’r angen i godi ymwybyddiaeth ar draws sectorau, gan gynnwys diweddaru’r ymgyrch ‘Be Plant Wise’. Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai ymgyrch ymwybyddiaeth gynnwys sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar ddosbarthiad rhywogaethau goresgynnol sydd wedi lledaenu’n eang.

39. Ymhlith y mesurau rheoli cyffredinol eraill a awgrymwyd oedd yr angen am fwy o ymchwil, a bod angen cyrchu a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd yn ehangach. Hefyd, fe wnaeth rai awgrymu’r angen am gynlluniau gweithredu manwl, gydag adnoddau, ar gyfer pob rhywogaeth o blanhigyn ac anifail dan ystyriaeth.

40. Un mesur a awgrymwyd gan nifer o ymatebwyr oedd defnyddio cynlluniau cymhelliant ariannol wedi’u hanelu’n benodol at reolwyr tir trwy gynlluniau stiwardiaeth fel Glastir yng Nghymru a’r Environmental Land Management System (ELM) yn Lloegr. Cafodd yr angen i fonitro rhywogaethau ei nodi hefyd gan sawl ymatebwr, gyda rhai’n awgrymu cynllun adrodd/cofnodi gwirfoddol a gwneud llawer mwy o ddefnydd o ddulliau casglu a chofnodi data trwy’r Canolfannau Cofnodi Amgylchedd Lleol.

41. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai sefydliadau fel Forestry England ganiatáu mynediad er mwyn dal a saethu gwiwerod llwyd. Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer y wiwer lwyd yn cynnwys; sicrhau nad yw gwiwerod yn gallu cael at ffynonellau bwyd fel cynwysyddion bwyd adar mewn gerddi; ailgyflwyno ysglyfaethwyr fel y bele; ac adfer coetiroedd llydanddail.

42. Roedd awgrymiadau pellach ar gyfer camau gweithredu i reoli ceirw Mwntjac yn cynnwys; gweithio gyda’r rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Asiantaeth y Priffyrdd er mwyn parhau â’u hymchwil a’u gwaith monitro parhaus o geirw Mwntjac a rhywogaethau eraill o geirw; ystyried mesurau sy’n lleihau neu’n lleddfu effeithiau’r rhywogaeth hon, gan gynnwys rheoli a chynllunio coetiroedd, dylunio priffyrdd a phlannu ar ymyl ffyrdd; ac annog a chefnogi astudiaethau lleol a rhanbarthol o effeithiau’r rhywogaeth hon.

# Cwestiwn 9: Oes yna gamau gweithredu ychwanegol na ddylid caniatáu eu defnyddio fel mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang?

## Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 9

43. Dywedodd rhai ymatebwyr na ddylid caniatáu'r camau canlynol fel rhan o fesurau rheoli cyffredinol: caniatáu casgliadau preifat a bridio rhywogaethau goresgynnol estron; defnyddio dull llwydni i reoli Jac y Neidiwr oherwydd y perygl posib i rywogaethau brodorol neu i borfa a chnydau fferm a garddwriaeth; a defnyddio chwynladdwyr a gwenwyn fel ffordd o reoli rhywogaeth.

44. Ar y llaw arall, roedd rhai o blaid cadw pob dull posibl o reoli chwyn ymledol gan gynnwys rhai cemegol, mecanyddol a biolegol, cyn belled â bod modd cyfiawnhau hynny ar ôl asesu'r risg, a'u bod yn cynnwys manteision amgylcheddol yn ogystal ag ariannol.

45. Awgrymwyd na fyddai'r defnydd o ddulliau rheoli marwol i anifeiliaid fel mesur rheoli cyffredinol wastad yn angenrheidiol, gan dynnu'r sylw at yr angen i ddatblygu dulliau rheoli amgen.

# Ymateb y Llywodraeth i fesurau rheoli cyffredinol – cwestiynau 7, 8 a 9

46. Roedd tueddiad gan ymatebwyr i roi sylwadau ar nifer o themâu allweddol mewn ymateb i gwestiynau 7-9 yn hytrach na chyfeirio at fesurau unigol. Fel y nodwyd yn ein datganiad interim ar 1 Tachwedd, bydd Defra a Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi'r camau rheoli cyffredinol sy'n cael eu cymryd i reoli rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr fel y'u nodwyd yn Atodiad B y ddogfen ymgynghori. Byddwn yn ystyried sut gallwn ni fynd i'r afael â'r themâu allweddol sy'n codi mewn ymateb i gwestiwn 7-9 (cyfathrebu gwell, camau gweithredu mwy strategol a chydlynol; mwy o adnoddau ac ymchwil bellach).

47. Mae Defra a Llywodraeth Cymru'n cytuno bod codi lefelau ymwybyddiaeth a chefnogaeth ymhlith y cyhoedd yn allweddol i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol a bod angen adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn. Roedd ymatebwyr yn

cyfeirio'n aml at ymgyrch Prydain gyfan 'Edrych, Glanhau, Sychu' sydd â'r nod o leihau'r perygl o ledaenu rhywogaethau goresgynnol dyfrol. Cafodd yr ymgyrch hon ei hailwampio yn 2018. Hefyd, fe wnaeth ymatebwyr sôn am ymgyrch Prydain gyfan 'Be Plant Wise', sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth garddwyr, perchnogion pyllau a manwerthwyr o'r difrod a achosir gan blanhigion dyfrol goresgynnol ac annog y cyhoedd i gael gwared ar blanhigion o'r fath yn gywir. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r ymgyrchoedd hyn, gan awgrymu bod angen ehangu'r ymgyrch Be Plant Wise i gynnwys mwy o enghreifftiau o rywogaethau goresgynnol estron o blanhigion sydd o bryder i'r Undeb. Mae gwaith eisoes ar droed i ail-lansio'r ymgyrch hon yn 2020, a bydd yn ystyried cynnwys rhywogaethau pellach. Byddwn yn dal i gefnogi ymgyrch flynyddol 'Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol' Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain, ac yn mynd ati i nodi a chynnal rhagor o waith codi ymwybyddiaeth sy'n flaenoriaeth.

48. Mae fframwaith hirsefydlog eisoes yn bodoli, wedi'i lywio gan y GB Non-native Strategy[2], ar gyfer camau gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a leol i helpu i leihau effaith niweidiol rhywogaethau goresgynnol estron yn ogystal â chydweithio rhwng Defra, Llywodraeth Cymru a'u partneriaid er mwyn pennu camau â blaenoriaeth i reoli rhywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru a Lloegr. Er hynny, rydym yn derbyn bod angen ehangu'r gwaith hwn ymhellach a'i gefnogi ymhellach er mwyn cydlynu'n well a denu rhagor o gefnogaeth.

49. Byddwn yn ymroi i gefnogi prosiectau cydweithredol, ar raddfa tirwedd, fel rhaglen 'Rapid LIFE' sy'n ceisio cyflawni pecyn o fesurau i leihau effaith a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron mewn amgylcheddau dŵr croyw afonol, torlannol ac arfordirol ledled Lloegr a'r Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) sy'n ceisio creu fframwaith cydweithredu a fydd yn hyrwyddo bioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau trwy ddatblygu dull Cymru gyfan ar gyfer rheoli rhywogaethau goresgynnol estron yn gynaliadwy ac yn effeithiol mewn ffordd gydlynol a strategol sy'n cael ei blaenoriaethu. Rydym yn cydnabod gwaith caled ac ymroddiad gwirfoddolwyr lleol sy'n adnodd allweddol wrth helpu i reoli sawl rhywogaeth a chodi ymwybyddiaeth.

50. Mae ffordd Defra a Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron yn cyd-fynd â'r dull hierarchaidd y cytunwyd arno'n rhyngwladol, sef; atal rhywogaethau sydd o bryder i'r Undeb rhag cyrraedd y DU, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol; canfod presenoldeb rhywogaethau o bryder i'r Undeb cyn gynted â phosibl a; chymryd camau i leihau'r risg y bydd rhywogaethau sydd eisoes wedi lledaenu'n eang yn lledaenu ymhellach. Trwy ddilyn y drefn hon, ein nod yw defnyddio dull seiliedig ar risg o reoli rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang, gan

---

[2] http://www.nonnativespecies.org/index.cfm?sectionid=55

ystyried costau a manteision camau gweithredu, ac rydym o'r farn y dylai'r rhan fwyaf o'r cyllid dargedu atal ac ymateb yn gyflym.

51. Byddwn yn parhau i annog a chefnogi ymchwil i effeithiau'r rhywogaethau hyn a'r rheolaeth ohonynt gan gynnwys treialu dulliau rheoli biolegol newydd a pharhaus gan gynnwys treialon llwydni ar Jac y Neidiwr a dulliau rheoli nad ydynt yn farwol fel y rhai sy'n cael eu treialu gan UK Squirrel Accord.

# Cwestiwn 10: Beth yw eich barn ar y mesurau rheoli trwyddadwy sydd yn Atodiadau C a D?

## Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 10

52. Y farn gyffredinol ymhlith ymatebwyr (ar wahân i'r ymatebion hynny i'r ymgyrch ysgrifennu llythyr – gweler llinellau 76 - 82) oedd bod angen mesurau rheoli – ond nid oedd ymateb clir yn dweud beth yn union ddylai'r mesurau hynny fod. Roedd rhai'n teimlo y byddai mesurau rheoli trwyddadwy yn arwain at ormod o fiwrocratiaeth annefnyddiol ac felly llai o gamau rheoli. Roedd llawer yn poeni am les anifeiliaid ac yn galw am gyflwyno a gorfodi canllawiau priodol. Fe wnaeth rhai fynegi pryder am gludo rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion, a'r risgiau wedyn y gallai rhywogaethau gael eu rhyddhau'n ddamweiniol i ardaloedd lle nad oeddent yn bresennol cynt.

### Planhigion

53. Roedd mwyafrif yr ymatebion am y mesurau rheoli trwyddadwy arfaethedig ar gyfer planhigion yn cefnogi'r enghreifftiau a ddarparwyd. Roedd ambell ymatebwr yn teimlo mai un elfen allweddol a oedd ar goll oedd y defnydd o ddeunyddiau planhigion (byw a marw) at ddibenion addysg a hyfforddiant. Cafwyd awgrym gan y Property Care Association y gallent ddatblygu cod ymarfer ar gyfer defnyddio deunydd planhigion goresgynnol estron at ddibenion addysg a hyfforddiant. Fel y sylwadau yng Nghwestiwn 6, dywedodd sawl ymatebwr na ddylai'r pwyslais ar safleoedd ecolegol greu rhagor o faich ariannol neu weinyddol ar dirfeddianwyr.

### Anifeiliaid

54. Roedd y mwyafrif a oedd yn cefnogi'r cynigion ar gyfer mesurau rheoli trwyddadwy ar gyfer anifeiliaid fel pe baent yn derbyn bod angen mesurau i reoli, ynysu neu ddileu poblogaethau. Fodd bynnag, roedd rhai hefyd yn teimlo mai dim ond pan fetho pob dull arall y dylid defnyddio dulliau marwol / ewthanasia, ac y dylai'r Llywodraeth egluro'n glir y gallai mesurau rheoli arwain at gynnydd yn y defnydd o ewthanasia ymhlith wiwerod llwyd a cheirw mwntjac, gan nad ydynt yn addas i'w cadw mewn

caethiwed. Hefyd, rhaid bod canllawiau angenrheidiol ar gyfer y cyfleusterau ewthanasia fydd yn ofynnol fel bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud heb greulondeb.

55. Fel y sylwadau yn y cwestiynau blaenorol, roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod cadw anifeiliaid yn gaeth am weddill eu hoes naturiol yn amhriodol. Fodd bynnag, roedd y rhesymau am hyn yn gwahaniaethu, gyda rhai'n teimlo nad oedd y dull hwn yn dda i'r anifeiliaid am resymau lles anifeiliaid, ac eraill yn credu bod cadw'r anifeiliaid hyn mewn caethiwed yn tanseilio'r neges gyhoeddus fod y rhywogaethau hyn yn hynod oresgynnol. Awgrymodd rhai na ddylai'r anifeiliaid hyn gael eu cadw mewn caethiwed, ond y dylent, yn y man lleiaf, gael eu dychwelyd i'r gwyllt ar ôl rhoi dull atal cenhedlu iddynt.

56. Yn achos terapiniaid, oherwydd mai niferoedd bach iawn sydd yn y gwyllt ac nad ydynt fel pe baent yn llwyddo i fridio yn nhymereddau'r DU, awgrymwyd y byddai'n briodol ac ymarferol tynnu poblogaethau bach, ynysig, ohonynt o'r gwyllt ac yna'u cadw mewn cyfleuster trwyddedig sy'n cael ei reoleiddio. O ran y carw mwntjac a'r wiwer lwyd, awgrymwyd na fyddai'n realistig na charedig cadw nifer mawr ohonynt mewn caethiwed gan fod cymaint ohonyn nhw a'u bod yn bridio'n llwyddiannus.

57. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at anawsterau rheoli gwiwerod llwyd a cheirw mwntjac. Y prif resymau am hyn oedd; eu natur wasgaredig; diffyg gwaith rheoli cydgysylltiedig rhwng ardaloedd a; diffyg llwyddiant yr ymdrechion cyfredol i leihau'r niferoedd yn sylweddol, heblaw am un neu ddau eithriad (e.e. gwiwerod llwyd ar Ynys Môn). Roedd sawl ymatebwr o blaid defnyddio rhaglenni atal cenhedlu eang fel dull rheoli. Fodd bynnag, er eu bod yn deall apêl dulliau rheoli ffrwythlondeb ar sail foesegol yn hytrach na dulliau rheoli marwol, roedd eraill yn poeni am natur ddetholus y mesurau atal cenhedlu sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r potensial am effeithiau anfwriadol ar rywogaethau mamaliaid gwyllt eraill, a pha mor ymarferol yw cyflwyno dulliau rheoli ffrwythlondeb i gyfran ddigonol o'r boblogaeth darged.

58. Awgrymodd un ymatebwr y gallai'r mesurau a ddisgrifiwyd ar gyfer cimwch afon America fod yn berthnasol yn rhannol i granc manegog Tsieina, er nad oeddent yn ystyried annog dal a gwneud defnydd masnachol o grancod manegog Tsieina, gan ddweud y gallai hyn o bosib arwain at sefydlu pysgodfa yn y DU; a'r risg gysylltiedig y gallai'r rhywogaeth hon ledaenu trwy weithgareddau anghyfreithlon (didrwydded).

# Cwestiwn 11: Oes yna gamau gweithredu ychwanegol y dylid eu defnyddio fel mesurau rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang penodol?

## Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 11

59. Awgrymodd nifer y dylid ychwanegu gofynion ychwanegol at y mesurau rheoli a gynigir yn Atodiad C yn hytrach na mesurau ychwanegol newydd. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai arolygu a monitro fod yn rhan o amodau trwyddedau ar gyfer dal, rheoli trwy ddulliau marwol, cadw neu gludo sbesimenau byw er mwyn helpu i ddeall cyrhaeddiad a lledaeniad y rhywogaethau hyn. Argymhelliad un ymatebwr oedd cyflwyno amod yn drwydded bod data ar y lleoliad a'r gwaith rheoli a wneir yn cael ei rannu â'r Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol. Awgrymodd un arall y dylai'r rhai sy'n gweithredu dan drwydded sy'n cynnwys dulliau rheoli marwol gofnodi'r niferoedd sy'n cael eu lladd a chyflwyno'r data i Cyfoeth Naturiol Cymru neu Natural England.

### Planhigion

60. Nodwyd nad yw Atodiad C yn mynd i'r afael yn benodol â defnyddio deunydd planhigion, byw a marw, at ddibenion addysg a hyfforddiant. Dylai fod yn glir er mwyn osgoi'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio deunyddiau o'r fath, e.e. defnyddio deunydd cadw â hadau a gwaredu amhriodol ar ôl yr hyfforddiant. Awgrymwyd bod Defra yn cysylltu â'r Property Care Association er mwyn datblygu cod ymarfer ar ddefnyddio deunydd planhigion goresgynnol mewn addysg a hyfforddiant.

61. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r sector ffermio ac eiddo yn credu y byddai rhanddirymiad neu fecanwaith i ddefnyddio plaladdwyr sydd wedi'u cyfyngu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn fanteisiol ar gyfer rhywogaethau planhigion sydd wedi lledaenu'n eang, i'w ddefnyddio fesul achos pan nad oes dulliau rheoli gwell ar gael neu os nad ydyn nhw'n ymarferol neu lle mae'r manteision yn drech na'r risgiau.

### Anifeiliaid

62. Roedd ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i'r syniad o ddefnyddio dull rheoli ffrwythlondeb fel mesur rheoli ychwanegol ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi lledaenu'n eang. Ymhlith y dulliau a awgrymwyd oedd sterileiddio llawfeddygol a dulliau atal cenhedlu. Roedd rhai'n credu y dylid defnyddio mesurau rheoli ffrwythlondeb yn lle mesurau marwol.

63. Roedd llawer o ymatebwyr yn credu y dylid defnyddio cymorthdaliadau a / neu gymhellion er mwyn annog rheolaeth o rywogaethau anifeiliaid sydd wedi lledaenu’n eang. Roedd awgrymiadau’n cynnwys cymell cynaeafu cig i’w fwyta; trapiau wedi’u hariannu gan y llywodraeth; dim tymor caeedig ar gyfer hela a saethu yn ystod y nos. Hefyd, dywedodd rhai ymatebwyr mai dim ond unigolion wedi’u hyfforddi a gweithwyr proffesiynol ddylai gyflawni mesurau rheoli marwol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn ddiogel a heb greulondeb.

64. Roedd rhai ymatebwyr, yn enwedig elusennau lles anifeiliaid, yn credu y dylid cael gofynion trwyddedu ar gyfer cyfleusterau achub ac ailgartrefu i unigolion preifat, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â’r mesurau rheoli a Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

# Cwestiwn 12: Oes yna gamau gweithredu na ddylid caniatáu eu defnyddio fel mesur rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaeth sydd wedi lledaenu’n eang benodol?

## Crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 12

65. Ac eithrio’r ymatebwyr hynny nad oeddent yn cefnogi mesurau rheoli marwol dan unrhyw amgylchiadau, ychydig iawn wnaeth gyflwyno awgrymiadau am ba gamau na ddylid eu defnyddio fel rhan o fesurau rheoli trwyddadwy.

66. Fel y nodwyd uchod, cafwyd ymateb cryf yn erbyn mesurau rheoli, a oedd yn cyfeirio at ddulliau rheoli marwol, gan gynnwys difa a/neu ddileu, yn enwedig gan unigolion. Roedd rhai’n gwrthwynebu’r defnydd o fesurau rheoli marwol penodol fel maglau, a drylliau calibr bach.  Dywedodd llawer eu bod nhw’n poeni am les anifeiliaid, a dywedodd un unigolyn fod rhaid i’r dulliau rheoli a ddefnyddir ar geirw mwntjac gydymffurfio â’r rhai a nodir yn Neddf Ceirw 1991.

67. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol ac elusennau, yn poeni am y defnydd o reolaethau biolegol, yn enwedig os ydynt wedi’u haddasu’n enynnol, e.e. technoleg ‘gene drive’. Gall hyn gynnwys rhyddhau llawer o unigolion wedi’u haddasu’n enynnol i’r amgylchedd er mwyn naill ai rheoli neu ddileu poblogaeth darged. Awgrymwyd mai prin yw’r dystiolaeth ei bod hi’n ddiogel defnyddio’r dull hwn yn yr amgylchedd naturiol, a bod angen pwyllo a chymryd gofal.

68. Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod yn gwrthwynebu'r defnydd o blaladdwyr i reoli anifeiliaid neu/a phlanhigion - a hynny oherwydd pryderon y byddant yn effeithio ar rywogaethau eraill heb eu targedu, difrod i'r amgylchedd a niwed i iechyd pobl.

69. Roedd rhai'n credu na ddylai rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang gael eu cadw mewn caethiwed ar unrhyw gyfrif. Hefyd, nid oedd rhai'n meddwl y dylid rhyddhau'r rhywogaethau hyn fel rhan o fesur rheoli. Ar y llaw arall, roedd eraill o'r farn mai dim ond at ddibenion ymchwil wyddonol y dylid cadw a rhyddhau rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang.

# Ymateb y Llywodraeth i fesurau rheoli trwyddadwy – Cwestiynau 10, 11 a 12

70. Fel y nodqyn yn ein ymateb interim a gyhoeddwyd ar 1 Tachwedd 2019, bydd Defra a Llywodraeth Cymru'n gweithredu dull rheoli trwyddadwy yn unol â'r cynigion a gyflwynwyd yn Atodiad C yr ymgynghoriad, yn amodol ar yr eithriadau ym mharagraffau isod. Ymdrinnir mesur rheoli a'r gimwch afon America ar wahân.

71. Gellid hefyd ystyried trwyddedau fel mesur rheoli er mwyn caniatáu i blanhigion goresgynnol sydd wedi lledaenu'n eang gael eu cludo, a'u cadw (mewn ffordd fioddiogel), at ddibenion addysgu'r cyhoedd i'w helpu i adnabod y rhywogaethau hyn yn y gwyllt er mwyn helpu i'w dileu neu reoli neu ynysu'r boblogaeth. Byddwn yn cysylltu â'r Property Care Association ynglŷn â'u cynnig i ddatblygu cod ymarfer ar ddefnyddio deunydd planhigion goresgynnol estron mewn addysg a hyfforddiant

72. Bydd mathau penodol o gyfleusterau yn gallu gwneud cais am drwydded dan rai amgylchiadau, er mwyn cadw rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi lledaenu'n eang sydd wedi'u cymryd o'r gwyllt. Bydd trwyddedau o'r fath yn cael eu hystyried fesul achos. Yn sgil y pryderon am les a godwyd yn yr ymgynghoriad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England wedi bod yn ystyried amodau priodol ar gyfer trwyddedau sy'n caniatáu cadw rhywogaethau. Bydd angen datganiad milfeddyg ar les anifeiliaid a chyfleuster cadw diogel gydag amodau i atal bridio fel rhan o ffurflen gais am drwydded Cyfoeth Naturiol Cymru. Nod hyn yw sicrhau bod unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu cadw fel hyn yn cael gofal priodol iawn a bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu. Hefyd, bydd angen microsglodyn ar anifeiliaid a gedwir dan drwydded, fel bod cofnod o'r anifeiliaid sy'n cael eu cadw ledled Cymru a Lloegr.

73. Yn achos y wiwer lwyd, ni fydd trwyddedau o'r fath ar gael i gyfleusterau sydd wedi'u lleoli naill ai mewn/ger ardaloedd lle mae'r wiwer goch yn bresennol, neu mewn llefydd lle mae'r wiwer lwyd yn absennol.

74. Nid oes modd trwyddedu'r broses o ryddhau rhywogaethau goresgynnol estron at ddibenion adsefydlu. Nid yw rhyddhau rhywogaethau goresgynnol estron, ar ôl

adsefydlu, yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn, gan nad oes modd ystyried y gweithgaredd hwn fel mesur rheoli h.y. dileu, rheoli neu ynysu poblogaeth. Awgrymwyd y gellid rhyddhau anifeiliaid wedi'u hanffrwythloni. Ond nid yw eu hanffrwythloni yn rhwystro anifeiliaid rhag ymddwyn mewn ffordd allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd na lleihau eu heffaith ar y fioamrywiaeth frodorol yn ystod eu bywyd. Nid ydym o'r farn felly bod anffrwythloni'n ffordd effeithiol o reoli effaith yr anifeiliaid hyn ar yr amgylchedd.

75. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ba mor anodd yw rheolaeth gynaliadwy o wiwerod llwyd a cheirw mwntjac yn yr hirdymor. Mae Defra a Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r ymdrechion hyd yma wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y ceirw mwntjac. Bydd y Deer Inititiave yn dod i ben ym mis Mawrth 2020. Yng Nghymru, bydd y Game and Wildlife Conservation Trust yn parhau â rhywfaint o waith Menter Ceirw Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried sut gellir bwrw ymlaen â mesurau eraill yn y cynllun gweithredu ar gyfer rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru. Fel y nodwyd ym mharagraff 29, hoffem gadarnhau er bod dileu wedi'i gynnwys fel mesur rheoli trwyddadwy, ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang, efallai mai dim ond dan amgylchiadau cyfyngedig y bydd hyn yn ymarferol ar gyfer rhywogaethau cyffredin. Rydym yn credu bod dull rheoli marwol yn ddull hynod effeithiol sy'n angenrheidiol weithiau er mwyn diogelu'r amgylchedd. Er hynny, dylid archwilio mesurau heblaw rhai marwol ar gyfer rhai rhywogaethau anifeiliaid.

## Ymgyrch llythyru

76. Cafwyd ymgyrch llythyru mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ac roedd yr ymatebion yn dilyn patrwm tebyg. Cafwyd nifer o ymatebion unigol ychwanegol hefyd yn mynegi'r un safbwynt â'r ymgyrch lythyru o ran thema a chywair. Roedd yr ymatebion hyn yn gyfran sylweddol o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ond roedd llawer ohonynt yn atebion un llinell ar gyfer pob cwestiwn ac nid oeddent yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth i gefnogi eu datganiadau.

77. Mae'r holl ymatebion wedi'u dadansoddi, ond nid yw ymateb y llywodraeth isod yn rhoi sylw i'r datganiadau bygythiol neu amherthnasol a ddaeth i law.

78. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebion hyn yn galw am eithriad i'r gwaharddiad ar ail-ryddhau i'r gwyllt ar ôl adsefydlu anifail wedi'i anafu, yn enwedig gwiwerod llwyd, a nifer llai ar gyfer y carw mwntjac a gŵydd yr Aifft.

79. Daeth sawl thema allweddol i'r amlwg yn yr ymatebion hyn:

i. Bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad yn cael effaith negyddol ar les y wiwer lwyd, y carw mwntjac a gŵydd yr Aifft.

ii. Bydd canolfannau achub yn dioddef effaith ariannol a/neu foesegol os na allant ryddhau'r tair rhywogaeth hon.

iii. Mae'r DU wedi camddehongli deddfwriaeth yr EU.

iv. Y ffaith na ddylid defnyddio mesurau marwol i reoli rhywogaethau goresgynnol dan unrhyw amgylchiadau, a bod lladd y rhywogaethau hyn yn foesol a moesegol anghywir.

v. Ni ddylid ystyried y rhywogaethau hyn yn rhai goresgynnol, a bod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn rhywogaethau anifeiliaid ar sail effaith a tharddiad.

vi. Byddai cadw'r anifeiliaid hyn mewn caethiwed yn niweidiol i'w lles a'u llesiant.

80. At hynny, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ymwneud â'r wiwer lwyd yn gwneud pwyntiau ychwanegol fel a ganlyn:

i. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i restru'r wiwer lwyd fel rhywogaeth o bryder i'r Undeb yn annilys neu'n rhagfarnllyd.

ii. Nid yw'r wiwer lwyd wedi cael effaith ar boblogaethau'r wiwer goch, ac mai erledigaeth gan bobl a darnio cynefinoedd a oedd gyfrifol am y dirywiad yn y boblogaeth. Hefyd, efallai nad y wiwer lwyd fu'n gyfrifol am ledaenu brech y gwiwerod i'r wiwer goch.

iii. Y ffaith fod y poblogaethau presennol o'r wiwer goch yn hanu o wledydd Llychlyn, ac nad bridiau brodorol mohonynt mewn gwirionedd. Hefyd, nid yw'r wiwer goch mewn perygl yn fyd-eang. Rydym yn cymryd bod hyn yn awgrymu na ddylid gwarchod poblogaethau'r DU i'r un graddau ag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

iv. Mae modd rhyddhau gwiwerod llwyd mewn caethiwed yn ôl i'r gwyllt ar ôl rhoi dull atal cenhedlu iddynt.

v. Dylid defnyddio dull atal cenhedlu drwy'r geg yn hytrach na mesurau rheoli marwol. Cynigiwyd hyn hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae'r wiwer goch yn bresennol. Roedd yr ymatebion yn dweud y byddai modd ailgyflwyno gwiwerod coch o'r cyfandir i wneud iawn am golli poblogaethau.

vi. Mae nifer y gwiwerod llwyd sydd wedi'u hachub yn ddi-nod yn ystadegol - ac na fydd eu rhyddhau i'r gwyllt yn cael unrhyw effaith ar raddfa ehangach.

vii. Byddai gorfod difa gwiwerod wedi'u hanafu sydd wedi'u hachub yn anodd i'r cyhoedd, staff cynorthwyo bywyd gwyllt a milfeddygon.

81. Mae'r pwynt allweddol ychwanegol yn ymwneud â cheirw mwntjac wedi'i grynhoi isod:

i. Mae'r asesiad risg ar gyfer y rhywogaeth hon yn cwestiynu pa mor ymarferol yw eu dileu yn y DU.

82. Mae'r pwynt allweddol ychwanegol yn ymwneud â gŵydd yr Aifft wedi'i grynhoi isod:

i. Nifer cymharol isel o wyddau'r Aifft sydd yn y DU, ac maen nhw'n ehangu'n araf yma – felly dylai hynny eu heithrio rhag unrhyw fesurau rheoli marwol.

# Ymateb y Llywodraeth i'r ymgyrchoedd llythyru

83. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r Prif Reoliad yn gosod gwaharddiadau llym ar rywogaethau a elwir yn 'rhywogaethau o bryder i'r Undeb'. Er nad yw'r DU bellach yn Aelod-wladwriaeth yr UE, yn ystod y cyfnod trosglwyddo, mae Defra a Llywodraeth Cymru dan rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â chyfraith yr UE ac mae'r holl waharddiadau a rhwymedigaethau dan y Prif Reoliad yn parhau mewn grym.

84. Felly, rydym o'r farn nad oedd unrhyw ddarpariaeth o dan y Prif Reoliad a fyddai'n galluogi'r llywodraeth i ganiatáu i'r rhywogaethau dan sylw yn yr ymgynghoriad gael eu cymryd o'r gwyllt, eu hadsefydlu a'u rhyddhau yn ôl i'r gwyllt wedyn. Nid yw hyn yn bodloni'r gofyniad i fesurau rheoli ganolbwyntio ar ddileu, rheoli neu ynysu'r boblogaeth.

85. Fel y nodwyd uchod, awgrymodd yr ymatebwyr y byddai cadw gwiwerod llwyd a cheirw mwntjac mewn caethiwed tan ddiwedd oes naturiol yr anifeiliaid yn niweidiol i'w lles a'u llesiant, gyda rhai'n awgrymu y gellid eu rhyddhau ar ôl eu hanffrwythloni. Rydym yn cydnabod y pwynt hwn fodd bynnag, y byddai anifeiliaid sydd wedi'u hanffrwythloni yn dal i gael effeithiau negyddol ar ôl eu rhyddhau ar yr amgylchedd ac ar y fioamrywiaeth frodorol ar hyd eu hoes. Nid ydym felly'n gallu cydnabod y gallai rhyddhau'r unigolion hyn i'r amgylchedd yn fesur rheoli dilys yn unol â'r Prif Reoliad.

86. Er mwyn ymateb i bryderon ymatebwyr, cymaint â phosib, am gadw anifeiliaid mewn caethiwed, cyhyd ag y bo modd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw un sy'n gwneud cais am drwydded i gadw a symud yr anifeiliaid hyn i basio archwiliad milfeddygol a gallu dangos eu bod yn gallu a gofalu am yr anifeiliaid er mwyn bodloni eu gofynion llesiant.

87. Rydym yn credu bod mesurau rheoli marwol yn ddull angenrheidiol mewn rhai amgylchiadau er mwyn diogelu'r amgylchedd ac asedau eraill. Fodd bynnag, lle bo'n ymarferol, gellir archwilio mesurau nad ydynt yn farwol ar gyfer rhai rhywogaethau anifeiliaid. Bydd dileu yn parhau yn rhan o'r nodau ar gyfer rhywogaethau sy'n lledaenu'n eang a bydd camau gweithredu o'r fath yn cael eu cymryd pan fo hynny'n bosibl. Bydd y llywodraeth yn parhau i gefnogi ymchwil, megis yr astudiaeth barhaus i ddulliau atal cenhedlu ar gyfer gwiwerod llwyd, i gyflawni'r nod hwn.

88. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu a gwella'r broses o reoli gwiwerod llwyd a cheirw mwntjac yn unol â *Chynllun Gweithredu Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd* a *Rheoli ceirw gwyllt: cynllun gweithredu 2017 i 2022.*

# Crynodeb o’r ymatebion yn ymwneud ag Atodiad D – Mesurau rheoli ar gyfer Cimwch afon America

89. Cafwyd nifer o ymatebion i’r ymgynghoriad a oedd yn trafod y cynigion a nodwyd yn Atodiad D. Daethant gan ystod eang o ymatebwyr gan gynnwys unigolion preifat, grwpiau ymchwil academaidd, trapwyr masnachol, cyrff rheoli dŵr, a grwpiau cadwraeth.

90. Cafwyd safbwyntiau amrywiol iawn, wedi’u hategu gan lefelau amrywiol o dystiolaeth, lle mynegwyd sawl thema allweddol gan gynnwys rheoleiddio, gorfodi, risg amgylcheddol a’r effaith ar fusnesau.

91. Dywedodd nifer sylweddol o’r ymatebwyr fod angen rheoleiddio llymach yn y maes hwn. Roedd y safbwyntiau ynghylch ffurf y rheoleiddio yn amrywio, fodd bynnag. Roedd trapwyr, yn gwmnïau masnachol ac unigolion preifat, am weld system reoleiddio fwy ffurfiol a fyddai’n ceisio proffesiynoli’r busnes. Ar y llaw arall, roedd cyrff anllywodraethol a chyrff rheoli dŵr am weld diwedd trapio masnachol, a oedd yn gwaethygu effaith y rhywogaeth hon ar yr amgylchedd yn eu barn nhw.

92. Hefyd, roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod unrhyw fath o reoleiddio pellach yn rhy gyfyngedig. Dyma’r farn gyffredin ymhlith y rheini sy’n ymwneud â thrapio’r rhywogaeth.

93. Fe wnaeth rhai o’r ymatebwyr ofyn pam nad oedd mesurau rheoli wedi’u hehangu i gynnwys pob cimwch afon goresgynnol.

94. Cafodd pob math o safbwyntiau gwahanol eu mynegi am orfodi’r mesurau rheoli. Pwysleisiwyd yr angen am ymchwil gwell er mwyn sicrhau trefn orfodi fwy effeithiol a strategol. Ar ben hynny, dywedodd ymatebwyr fod angen rhagor o gyllid i sicrhau bod unrhyw drefn reoli yn cael ei gorfodi’n effeithiol.

95. Roedd sawl ymatebwr yn cwestiynu a allai unrhyw drefn drwyddedu gael ei gorfodi’n iawn, ac roeddent o’r farn y gallai’r drefn arfaethedig arwain at ragor o effeithiau amgylcheddol heb fwy o lawer o ymgysylltiad gan gyrff gorfodi.

96. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid llacio’r rheolau trapio, a bod mwy o graffu ar drapwyr gan gyrff gorfodi yn groes i’r nodau sydd yn Atodiad A.

97. Hefyd, pwysleisiodd ymatebwyr y ffaith y dylai mesurau bioddiogelwch llym fod ar waith er mwyn atal y rhywogaeth rhag lledaenu ymhellach.

98. Mynegodd sawl ymatebwr bryderon y byddai’r defnydd masnachol parhaus o gimwch afon America ond yn arwain at ledaenu pellach. Pwysleisiwyd hyn mewn tystiolaeth gan yr International Association of Astacology (IAA) a roddodd esboniad manwl am

ledaeniad cimwch afon America yn Sweden, a'r cysylltiad rhwng ardaloedd a oedd yn rhydd o gimychiaid afon America o'r blaen. Yn eu geiriau nhw, *"Fisheries is not a method to control the impact and spread of IAS crayfish. It instead increases the spread and damage caused by IAS crayfish. This is based on 60 years' experience in Sweden and Finland of the invasive North American Signal crayfish (Pacifastacus leniusculus). There is not a single published example where fisheries has resulted in the extinction of ân IAS crayfish population (Hein et al. 2007. Freshwater Biology, 52(6), 1134-1146). Fisheries and handling of the catch has instead been proved to be the cause of further spread, despite good intentions to perform the control fishery under strict conditions in Sweden, Finland and Norway (Edsman a Schröder 2009. Action plan for noble crayfish 2008-2013. Fiskeriverket och Naturvårdsverket, Report 5955. ; Bohman, Ed. 2019. Swedish Crayfish Database. Swedish University of Agricultural Sciences, Department of Aquatic Resources)."*

99. Galwodd rhai o'r ymatebwyr am waharddiad llwyr ar ymelwa masnachol mewn ardaloedd dan waharddiad. Yn eu barn nhw, byddai ymelwa masnachol yn yr ardaloedd hyn yn annog y rhywogaeth i ledaenu ymhellach, ac y dylai'r ffocws mewn ardaloedd dan waharddiad fod ar reolaeth lem. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y cysylltiad rhwng trapio a lledaeniad y rhywogaeth. Dywedodd eraill y dylid atal trapio masnachol a thrapio fel hobi mewn ardaloedd dan waharddiad ac ardaloedd ecolegol-sensitif eraill, er mwyn lleihau'r perygl o ledaenu'r rhywogaeth, naill ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol.

100. Roedd ambell ymatebwr yn teimlo bod defnydd masnachol o gimwch afon America yn beryglus iawn i'r amgylchedd. Dywedwyd y byddai angen i symudiadau byw fod yn fioddiogel, ond mynegwyd pryderon am sbesimenau byw yn dianc yn ddamweiniol neu'n cael eu rhyddhau yn fwriadol. Cafwyd galwadau penodol gan Buglife i gyfyngu gwaith trapio at ddibenion rheoli pysgodfeydd, ymchwil wyddonol neu gynlluniau dileu go iawn yn unig, a rhoi'r gorau i annog defnydd masnachol o'r rhywogaeth. Roeddent yn credu'n gryf y byddai parhau i'w gwerthu yn arwain at ragor o ddifrod ecolegol.

101. Soniwyd hefyd am yr angen am adolygiad pellach o ardaloedd dan waharddiad ac ardaloedd ynysu. Un argymhelliad penodol oedd disodli'r dull cod post gydag ardaloedd sy'n ystyried dull seiliedig ar ddalgylchoedd.

102. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen nodi'n glir i fusnesau pa gamau a ganiateir dan y drefn newydd. Hefyd, sicrhau bod unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd gan fusnesau yn fioddiogel, a bod gwaith trapio sy'n parhau yn cael ei wneud mewn ffordd y gellid profi ei fod yn mesur rheoli.

103. Roedd rhai ymatebwyr o blaid gwerthu cimychiaid afon America, ond bod y rhagdybiaeth nad oedd unrhyw farchnad am gimychiaid marw yn anghywir. Ymatebodd yr Angling Trust i'r pwynt hwn yn benodol trwy ddweud *"We would question the evidence outlined in Paragraph 70 that states there is 'little or no market for dead Signal crayfish'. Dead and pre-cooked crayfish tails are often used by hotels*

*sold to them frozen....... to our knowledge there are very few restaurants that keep live Signal crayfish on site for consumption."*

104. Fodd bynnag, roedd ymatebion gan y rhai sy'n gysylltiedig â gwaith trapio yn cadw i bwysleisio'r pwynt fod cimychiaid afon America byw yn bwysig i'r diwydiant, a bod angen rhyw fath o gymhelliant parhaus i ddal cimychiaid. Nodwyd bod trapwyr yn teimlo y gallent gael effeithiau manteisiol parhaus ar yr amgylchedd trwy ddal cimychiaid afon America ac y dylent allu parhau i'w gwerthu'n fyw. Roedd un ymatebwr yn dweud y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad fel ag y maent yn effeithio ar y diwydiant cimwch afon America ac ni fyddent yn helpu busnesau cyfredol i dyfu. Roedd gan y diwydiant trapio bryderon amlwg am yr effaith y byddai tynhau unrhyw gyfyngiadau yn unol â'r rheoliad rhywogaethau goresgynnol estron yn ei chael ar eu busnesau, ac ar allu'r wlad i reoli cimychiaid afon America trwy waith trapio.

# Ymateb y Llywodraeth i fesurau rheoli Cimwch afon America

105. Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn helpu i gael mwy o ddealltwriaeth o'r defnydd masnachol, yr effeithiau, a'r pryderon cysylltiedig eraill yn ymwneud â chimychiaid afon America yng Nghymru a Lloegr.

106. Bu'r swyddogion yn cwrdd â phob math o randdeiliaid ac arbenigwyr: unigolion preifat, grwpiau ymchwil academaidd, trapwyr masnachol, cyrff rheoli dŵr, grwpiau cadwraeth, cyrff anllywodraethol a chyrff gorfodi. Yn sgil y cyfarfodydd â ffocws hyn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cyflwynwyd sawl newid i'r cynigion a nodwyd yn Atodiad D y ddogfen ymgynghori.

107. Wrth ddatblygu eim cynigion, mae'r llywodraeth yn rhoi blaenoriaeth i leihau risg pellach i'r amgylchedd a sicrhau bod nodau'r mesurau rheoli yn ddigon cadarn. Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i'r gwir effaith y bydd newidiadau sylweddol i'r fasnach yn y rhywogaeth hon yn ei chael ar drapwyr proffesiynol yn Lloegr yn y tymor byr. Rydym hefyd o'r farn bod angen parhaus i reoli poblogaethau mawr a niweidiol o gimychiaid afon America er mwyn ceisio rheoli'r niferoedd mewn ffordd ymarferol a hyfyw yn economaidd.

108. Yn dilyn datblygu'r cynigion ymhellach, cafodd ein safbwynt ei ddisgrifio yn yr ymateb interim ar 1 Tachwedd 2019 (diweddarwyd ar 20 Rhagfyr). Dyma yw ein safbwynt:

i. Ardaloedd dan waharddiad (yng Nghymru a Lloegr) - Bydd y polisi cyfredol o beidio â chaniatáu ymelwa'n fasnachol ar gimychiaid afon America yn yr "ardal dan waharddiad", (yr enw Saesneg cyffredin arni ar hyn o bryd yw "no-

go area” fel y pennwyd gan yr Atodlen i Orchymyn Gwahardd Cadw Pysgod Byw (Cimychiaid yr Afon) 1996) yn parhau. Byddai hyn yn golygu parhau â’r status quo, gyda chaniatâd i drapio mewn ardal dan waharddiad at ddibenion cadwraeth, gwyddonol, neu reoli pysgodfeydd yn unig, a dim caniatâd ar gyfer defnydd masnachol o unrhyw fath.

ii. Ardaloedd ynysu (yn Lloegr) – Caniateir trapio cimychiaid afon America yn yr ardaloedd ynysu (yr enw Saesneg cyffredin arnynt ar hyn o bryd yw’r “go area” fel y pennwyd gan yr Atodlen i Orchymyn Gwahardd Cadw Pysgod Byw (Cimychiaid yr Afon) 1996) (lle rhoddwyd caniatâd), ond ni chaniateir gwerthu cimychiaid afon America byw. Rhaid lladd cimychiaid afon yn y man lle cânt eu dal neu eu symud i gyfleuster prosesu â thrwydded i drin cimychiaid afon America byw. Ni fyddai cyfleusterau’n cael trwydded i gael neu dderbyn cimychiaid afon a gymerwyd o ardaloedd dan waharddiad. Ni fyddai hyn yn diddymu’r cyfle i werthu cimychiaid afon America marw sydd wedi’u trapio a’u prosesu, nac yn atal masnachwyr rhag archwilio marchnadoedd eraill ar gyfer cimychiaid afon America marw, fel ar gyfer cynhyrchion abwyd neu borthiant anifeiliaid (yn amodol ar driniaeth angenrheidiol). Bydd yn bosibl eu trapio hefyd o dan drwydded at ddibenion cadwraeth, gwyddonol a rheoli pysgodfeydd yn yr ardaloedd hyn.

iii. Ardaloedd ynysu (Cymru) - Ni chaniateir ymelwa’n fasnachol ar gimychiaid afon America yn yr “ardal ynysu” (yr enw Saesneg cyffredin arni ar hyn o bryd yw “go area” fel y pennwyd gan yr Atodlen i Orchymyn Gwahardd Cadw Pysgod Byw (Cimychiaid yr Afon) 1996). Byddai hyn yn golygu parhau â’r status quo, a chaniatâd i drapio mewn ardaloedd ynysu at ddibenion cadwraeth, gwyddonol neu reoli pysgodfeydd yn unig.

109. Bod y mesurau hyn yn golygu na fydd gan drapwyr unigol ganiatâd ar unrhyw gyfrif i symud sbesimenau byw o’r rhywogaeth hon ymhellach na glan yr afon, ac na fydd ganddynt ganiatâd mwyach i fynd â chimwch afon America byw adref i’w fwyta. Nid yw hyn yn cyfrannu at nodau’r mesurau rheoli, ac ar ei orau mae’n golygu dethol cimychiaid mawr i’w dal, a gallai hynny gael effaith negyddol digroeso yn yr hirdymor. Mae hefyd yn ormod o risg o safbwynt lledaenu’r rhywogaeth hon. Felly, bydd symud a chadw cimychiaid afon America byw ond yn gyfreithlon dan drwydded neu mewn cysylltiad â gwaith cyfleuster trwyddedig.

110. Yn ogystal â’r diwygiadau uchod, mae Defra wedi penderfynu caniatáu allforio nifer cyfyngedig o gimychiaid afon America byw o ardaloedd ynysu yn Lloegr, er mwyn i fusnesau addasu i’r drefn reoleiddio newydd.

111. Bydd trwyddedu ymelwa’n fasnachol ar gimychiaid afon America dros dro yn cael ei chaniatáu dan yr amodau llym canlynol yn unig:

i. ar gyfer cyfleusterau trwyddedig a sefydlwyd i gyfuno, golchi, graddio, rhewi neu brosesu cimychiaid afon America, a all geisio am drwydded allforio;

ii. ni chaniateir allgludo ondam gyfnod o ddwy flynedd, fel mesur pontio;

iii. i allforio i wledydd (boed o fewn neu'r tu allan i'r UE) lle mae allforion byw yn gyfreithlon;

iv. lle mae'r dull cludo yn fioddiogel ar hyd y daith gyfan, gyda'r anifeiliaid yn cael eu cadw mewn safleoedd trwyddedig diogel ac yna'u pecynnu'n ddiogel i'w cludo yn unol â gofynion Rheoliad CE 853/2004.

112. Yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd, bydd Defra yn monitro sut mae trwyddedau'n cael eu defnyddio, maint a chyrchfan yr allforio, unrhyw dystiolaeth am werthiannau anghyfreithlon, ac adroddiadau am ddifrod ecolegol, a bydd yn adolygu tystiolaeth o sut mae'r diwydiant yn addasu. Bydd trwyddedau unigol yn cael eu dirymu os oes tystiolaeth o beidio â chydymffurfio. Bydd pob allforiad byw yn dod i ben ar ôl y cyfnod pontio 2 flwyddyn hwn.

113. O dan y Rheoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron, mae'n bosib caniatáu defnydd masnachol dros dro o rywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang, cyn belled mai nodau rheoli yw prif bwyslais y camau sy'n cael eu cymryd. Felly, mae Defra'n fodlon caniatáu'r gweithgarwch hwn am gyfnod cyfyngedig er mwyn caniatáu i fusnesau addasu, gan mai nod cymryd cimychiaid afon America o dan y trwyddedau hyn yw rheoli'r poblogaethau yn Lloegr i bob golwg.

# Atodiad A – Sefydliadau a ymatebodd

Angling Trust
Animal Aid
Balcombe Fly Fishers
BeastWatch UK
Breedon on the Hill Parish Council
British Association for Shooting and Conservation
Buglife
Centre for Agriculture and Bioscience International
Coed Cadw
Comisiwn Coedwigaeth
Community Invasive Non-Native (Species) Group
Confederation of Forest Industries (UK)
Coventry Wildlife Rescue
Crayfish Capers
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cymdeithas Ceirw Prydain
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Chartered Institute of Ecology and Environmental Management (CIEEM)
Devon Biodiversity Records Centre
Devon Invasive Species Initiataive (DISI)
Dogs4rescue
Dusters Ark
Dŵr Cymru
Exmoor National Park Authority
Folly Wildlife Rescue
Gloucestershire County Council
Goodheart Animal Sanctuaries
Heritage LandCare
Hertfordshire Ecology
Institute of Tropical Biodiversity and Sustainable Development
International Association of Astacology
Isle of Wight Catchment Partnership
London Invasive Species Initiative
London Wildlife Protection
Lower Coquetdale Red Squirrels
National Centre for Reptile Welfare
National Gamekeepers' Organisation
Natural England
Network Rail
New Forest Non-Native Plant Project
Newcastle University
NFU Cymru
North Western Inshore Fisheries and Conservation Authority (NWIFCA)
Northumberland Rivers Trust
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
PBA Applied Ecology Ltd
Penrith & District Red Squirrel Group

Peper Harow Park Fly Fishers Club
Property Care Association
Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru
Prosiect Rhywogaethau Estron Goresgynnol Dyfrdwy
Red Squirrels Northern England
Reptile & Exotic Pet Trade Association (REPTA)
Royal Forestry Society
Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals (RSPCA)
SongBird Survival
South West Lakes Trust
South West Water
St Catharine's College, Cambridge University
Stowe School
Suckley Hills Stream Improvement Group
Tiggywinkles Wildlife Hospital
Tyne Rivers Trust
The National Forest Company
The Ornamental Aquatic Trade Association (OATA)
The Starlight Trust
The Warwick School, Surrey
The Wildlife Aid Foundation
The Yorkshire Invasive Species Forum
Uned Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
United Kingdom Crayfish Association
Universiti Malaysia Kelantan
Urban Squirrels
Vale wildlife hospital
Wandsworth Council
West Cumbria Rivers Trust
Wildlife and Countryside Link

# Atodiad B – Nodau'r mesurau rheoli

1. Bwriad y nodau isod yw ceisio lleihau effaith y rhywogaethau hyn ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem brodorol, a'r effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach.

## Planhigion

| **Rhywogaethau: Pidyn-y-gog Americanaidd (*Lysichiton americanus*), Riwbob Chile (*Gunnera tinctoria*), Ffugalaw crych (*Lagarosiphon major*), Dail-ceiniog arnofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*), Efwr enfawr (*Heracleum mantegazzianum*), Jac y Neidiwr (*Impatiens glandulifera*), Ffugalaw Nuttall (*Elodea nuttallii*), Pluen Parot (*Myriophyllum aquaticum)*** | |
|---|---|
| Nodau | Lleihau lledaeniad pellach y rhywogaethau hyn, gan gynnal gwaith dileu lleol mewn ardaloedd blaenoriaeth uchel lle bo modd. Gall enghreifftiau o ardaloedd blaenoriaeth uchel gynnwys; safleoedd sydd wedi'u dynodi at ddibenion cadwraeth natur lle mae planhigion neu anifeiliaid brodorol prin dan fygythiad; ardaloedd lle mae poblogaethau newydd wedi ymsefydlu a lle mae'n bosib eu rheoli; ac ardaloedd â risg uchel o ledaenu o ffynhonnell wreiddiol y rhywogaethau hyn. |

## Anifeiliaid

| **Rhywogaethau: Gŵydd yr Aifft (Alopochen aegyptiacus), Cranc manegog Tsieina (Eriocheir sinensis), Carw mwntjac (*Muntiacus reevesi*), Holl isrywogaethau [3] *Trachemys scripta* (neu "lithrwyr")** | |
|---|---|
| Nodau | Rheoli'r boblogaeth wyllt gyfredol o'r rhywogaeth hon, i leihau ei lledaeniad pellach a'i dileu yn y gwyllt lle bo'n bosibl trwy ddulliau heb greulondeb, lle mae'r canlyniadau'n gyflawnadwy a'r buddiannau'n gynaliadwy.<br>Lleihau'r niferoedd mewn caethiwed dros amser. |
| **Rhywogaethau: Y wiwer lwyd (*Sciurus carolinensis)*** | |
| Nodau | Rheoli'r boblogaeth wyllt gyfredol o'r rhywogaeth hon, i leihau ei lledaeniad pellach a'i dileu yn y gwyllt lle bo'n bosibl gan ddefnyddio dulliau heb greulondeb, lle mae'r canlyniadau'n gyflawnadwy a'r buddiannau'n gynaliadwy.<br>Eu hatal rhag sefydlu ar ynysoedd lle nad ydynt yn gallu cytrefu'n naturiol.<br>Eu hatal rhag sefydlu mewn ardaloedd lle gwarchodir poblogaethau o'r wiwer goch.<br>Lleihau nifer yr unigolion sydd mewn caethiwed dros amser. |

[3] Mae hyn yn cynnwys holl is-rywogaethau *Trachemys scripta* e.e. terapin bol melyn, terapin clustgoch, terapin Cumberland, terapin a'r terapin cyffredin

| **Rhywogaeth: Cranc manegog Tsieina (*Eriocheir sinensis*), Cimwch afon America (*Pacifastacus leniusculus*)** | |
|---|---|
| Nodau | Lleihau lledaeniad pellach y rhywogaeth a lleihau ei heffeithiau. Defnyddio dulliau heb greulondeb i'w dileu mewn ardaloedd, lle mae'r canlyniadau'n gyflawnadwy a'r buddiannau'n gynaliadwy. |